# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

(09.30-10.15)

(Tudalennau 1 - 16)

Pedr ap Llywd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd Cenedlaethol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

David Michael, Dirprwy Brif Weithredwr, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

### Egwyl

(10.15-10.30)

## 3 Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

(10.30-11.15)

Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru

Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru

Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Egwyl

(11.15-11.30)

## 4 Cymorth ar gyfer y cyfryngau newyddion

(11.30-12.30)

(Tudalennau 17 - 27)

Rachel Howells

Emma Meese, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd

Karen Wahl-Jorgensen, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd

Ifan Morgan Jones, Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor

Nick Powell, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad byr ar effaith yr achosion COVID-19 ar y Diwydiannau Creadigol

(Tudalennau 28 - 32)

### 5.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad byr ar effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

(Tudalennau 33 - 38)

### 5.3 Gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru ar addysgu cerddoriaeth

(Tudalennau 39 - 45)

### 5.4 Llythyr gan yr FDA ar gyllid ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

(Tudalennau 46 - 47)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 7 Ôl-drafodaeth breifat

(12.30–12.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5.1

**Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu o'r enw Effaith yr Achosion COVID-19 ar y Diwydiannau Creadigol**

---

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r naw argymhelliad a wnaed ynddo.

**Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i nodi sut y bydd yn blaenoriaethu'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymrwymo i wario'r £59 miliwn cyfan ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

**Ymateb:** Derbyn

Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £53 miliwn i helpu i gefnogi a chynnal y sector yn sgil yr heriau a wynebwyd oherwydd pandemig y Covid-19. Bwriad y gronfa yw darparu cymorth hanfodol i theatrau, mannau cynnal cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau, digwyddiadau a gwyliau a sinemâu annibynnol sydd i gyd wedi gweld colledion difrifol yn eu refeniw oherwydd y pandemig. Bydd yr arian yn helpu sefydliadau ac unigolion yn y sector.

Mae tair elfen i'r gefnogaeth sy'n ategu ei gilydd: cyllid, i ddiogelu sefydliadau cynaliadwy a chymaint o swyddi yn y sector diwylliant â phosibl; contract diwylliannol i ddefnyddio'r arian i sbarduno gweddnewidiad ac i gefnogi ffyrdd newydd o weithio; a map ar gyfer ailagor, i sicrhau bod y gefnogaeth yn helpu'r sector i ailagor yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

Caiff yr arian ei ddarparu trwy dri chyfrwng:
- Arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sefydliadau;
- Arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi sefydliadau;
- Help i unigolion.

Y bwriad yw agor elfen Cyngor Celfyddydau Cymru o'r gronfa ganol mis Awst ac elfennau Llywodraeth Cymru ar gyfer ceisiadau ganol mis Medi.

O'i gymryd gyda'r pecyn cyllido o £18m a gyhoeddwyd ddechrau mis Ebrill i gefnogi'r ymateb brys, mae cyllid Llywodraeth Cymru i'r sector diwylliant eleni'n fwy na'r arian canlyniadol sydd wedi dod i law. Mae'r sector wedi cael help hefyd trwy Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol**: Dyraniad ychwanegol o £53m yn 2020-21, yn cynnwys £50m o refeniw a £3m o gyfalaf i gefnogi Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru.

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i ymchwilio i ffyrdd o roi cymorth ariannol i weithwyr yn y diwydiannau creadigol sydd, wrth i'r cyfnod clo lacio, yn methu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel o hyd.

**Ymateb:** Derbyn
Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £7m o Gronfa Adferiad Diwylliannol Cymru i helpu'r unigolion sy'n gweithio yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol y mae pandemig y

COVID-19 wedi effeithio arnynt. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag ailddechrau gweithgarwch yn y diwydiannau creadigol yng ngoleuni'r mesurau i gyfyngu ar ledaeniad y feirws, ac effaith arwyddocaol hyn ar allu unigolion a gweithwyr llawrydd yn y sector i gael hyd i waith a chreu incwm. Bydd y gronfa'n rhoi help hanfodol i'r unigolion hyn sy'n hollbwysig i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Law yn llaw â'r cymorth ariannol hwn, mae map ar gyfer ailagor yn cael ei ddatblygu. Bydd yn crisialu'r amserlen ar gyfer llacio'r cyfyngiadau ar draws y diwydiannau creadigol ac yn sicrhau bod y cymorth yn helpu i ailddechrau gweithgarwch yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod sut i helpu gweithwyr yn y diwydiannau creadigol â Llywodraeth y DU.

**Goblygiadau ariannol**: Mae £7m o refeniw ar gael yn 2020-21 i helpu unigolion.

**Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i ymgynghoriad Ofcom ynglŷn â dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus i eirioli dros gyllid digonol i sicrhau y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i ddarparu rhaglenni sy'n tarddu o Gymru a chynnwys unigryw o Gymru.

**Ymateb:** Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru'n ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

**Goblygiadau ariannol**: Nid oes goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei chanllawiau ynghylch y camau sydd angen eu cymryd i ailgychwyn gweithgaredd ffilmio a chynhyrchu yn ofalus yn cael eu cyhoeddi ar frys.

**Ymateb:** Derbyn

Cafodd canllawiau ar gyfer ailddechrau gweithgarwch ffilmio a chynhyrchu eu cyhoeddi ar 16 Mehefin fel rhan o ganllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol. Mae hon yn ddogfen fyw ac mae'n cael ei diweddaru yn unol â'r newidiadau i'r rheoliadau yng Nghymru ac wrth i ragor o arweiniad a chyngor ddod i law gan y diwydiant. Mae dogfen cwestiynau cyffredin wedi'i chynhyrchu i gyd-fynd â'r canllawiau i ateb cwestiynau penodol gan y sector.

Bu tîm Cymru Greadigol yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Grŵp Cefnogi Rhanddeiliaid Sgrin COVID-19 sydd â chynrychiolwyr o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cwmnïau cynhyrchu annibynnol ac undebau'n aelodau ohono, i ddatblygu'r canllawiau. Mae Cymru Greadigol yn dal i gydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n dal i ddiwallu anghenion y sector wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

Mae'r canllawiau yn dangos cyngor ac arferion gorau'r diwydiant, gan gynnwys canllawiau'r diwydiant ar gyfer cynhyrchu rhaglenni teledu'n ddiogel a gynhyrchwyd gan ddarlledwyr, protocolau diogelwch BFC ar gyfer y diwydiant a chanllawiau'r BBC ar Weithio'n Agos. Mae

swyddogion Cymru Greadigol wedi bod yn cyfrannu at y canllawiau a ddatblygwyd gan y BFC a darlledwyr, trwy gydweithio â'r gweithgorau perthnasol a thrwy drafodaethau uniongyrchol.

**Goblygiadau ariannol**: Nid oes goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 5</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw drafodaethau sy'n cael eu harwain gan Cymru Greadigol am yr yswiriant cynhyrchu sydd ar gael.

**Ymateb:** Derbyn

Ar 29 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Ailddechrau Cynhyrchu Ffilm a Theledu gwerth £500 miliwn i ddarparu cymorth ar gyfer yswiriant cynhyrchu – cymorth sy'n fawr ei angen ar y diwydiant. Mae'n rhan o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol ehangach. Roedd Cymru Greadigol wedi cynnal nifer o drafodaethau gydag Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU cyn y cyhoeddiad i bwysleisio mor bwysig fyddai'r cymorth hwn i'r sector yng Nghymru. Bydd Cymru Greadigol yn dal i weithio gyda'r DCMS i gefnogi ceisiadau o Gymru, gan gynnwys hwyluso sesiwn Holi ac Ateb rhwng y DCMS a'n grŵp rhanddeiliaid sgrin COVID-19 cyn lansio'r broses ymgeisio, i'w gynnal ddiwedd Awst/dechrau Medi.

**Goblygiadau ariannol**: Nid oes goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 6</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau gyda'r Trysorlys a'r diwydiant yswiriant i geisio gwarantau a fydd yn rhoi'r hyder sydd ei angen ar ddarparwyr yswiriant i sicrhau bod yswiriant cynhyrchu ar gael.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn bositif i'r cyhoeddiad ynghylch y Cynllun Ailddechrau Cynhyrchu Ffilm a Theledu. Mae'r prif randdeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys PACT, hefyd wedi croesawu'r cyhoeddiad. Mae asesiad cychwynnol o'r wybodaeth sydd ar gael am y cynllun yn awgrymu bod y telerau a'r amodau ar gyfer ymgeiswyr yn ateb y galw ac yn diwallu anghenion ymgeiswyr cymwys o Gymru. Bydd Cymru Greadigol yn cydweithio'n glos ag ymgeiswyr a'r DCMS i sicrhau mai'r rheini sydd â'r angen mwyaf yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o gael eu helpu trwy'r cynllun.

**Goblygiadau ariannol**: Nid oes goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 7</u>**

Dylai Llywodraeth Cymru drafod darparu yswiriant ar gyfer digwyddiadau byw yn ei thrafodaethau â'r Trysorlys a'r diwydiant yswiriant.

**Ymateb:** Derbyn

Dylai Digwyddiadau Cymru drafod a chytuno â Grŵp Cynghori'r Diwydiant fel rhan o'r drafodaeth ehangach am y rhagolygon ar gyfer y sector digwyddiadau – gan gynnwys y posibilrwydd ar gyfer ei ailagor fesul cam – a chodi'r mater gyda Llywodraeth y DU.

**Goblygiadau ariannol**: Nid oes goblygiadau ariannol – os trafodaeth yw hon am gymorth gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n derbyn cyllid Cymru Greadigol ddangos eu hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth eu gweithlu.

**Ymateb:** Derbyn

Mae codi safonau a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y diwydiannau creadigol yn flaenoriaethau i Cymru Greadigol. Ein gweledigaeth ar gyfer y sector yw bod pawb, waeth beth yw ei amgylchiadau na'i gefndir, yn cael manteisio ar gyfleoedd a ffynnu; creu diwydiant amrywiol lle mae'r gwaith yn deg a'r gweithle'n gynhwysol. Ein bwriad yw sbarduno newid ac i weithio mewn cydweithrediad â'r diwydiant i hybu cynhwysiant, cyflog teg ac arferion gweithio teg, fel uchelgais ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith teg yng Nghymru. Bydd Cymru Greadigol yn cynnal gwaith mapio manwl cyn hir o'r sector sgrin ledled Cymru. Bydd hwnnw'n darparu data ynghylch lefel yr amrywiaeth o fewn y sector ac yn edrych ar beth sy'n rhwystro grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Rydym yn gweithio hefyd â darparwyr hyfforddiant i edrych ar ffyrdd o wella'r drefn recriwtio er lles grwpiau a dangynrychiolir.

Mae gofyn i fusnesau sy'n cael cymorth ariannol uniongyrchol gan Cymru Greadigol arwyddo Contract Economaidd, i ddangos eu hymrwymiad i bedair egwyddor, gan gynnwys gwaith teg a hyrwyddo iechyd, iechyd meddwl, sgiliau a hyfforddiant yn y gwaith. Rydym hefyd yn adolygu ein cyllid cynhyrchu i ystyried sut y gallem addasu'r hyn a gynigiwn i fynnu bod y rheini sy'n derbyn cyllid gennym yn cydymffurfio â set o safonau ar amrywiaeth fel amod o'r cymorth hwnnw.

Bydd y Gronfa Cadernid Diwylliannol hefyd yn ein cefnogi i wireddu'n huchelgais ar gyfer amrywiaeth yng ngweithle'r diwydiannau creadigol ac yn gyfle unigryw i sicrhau newid sylfaenol trwy gyflwyno contract diwylliannol sydd â gwaith a chyflog teg a chynaliadwyedd yn greiddiol iddo.

**Goblygiadau ariannol**: Nid oes goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 9**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr egwyddor o ymgynghori â rhanddeiliaid yn cael ei hymgorffori yn ffyrdd Cymru Greadigol o weithio.

**Ymateb:** Derbyn

Mae llwyddiant y diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi'i adeiladu ar sylfaen o gydweithio llwyddiannus, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd meithrin partneriaethau llwyddiannus a chefnogi cydweithio yn elfen hanfodol ar gyfer twf yn y dyfodol. Felly, mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth wirioneddol ag ystod eang o randdeiliaid, o gynrychiolwyr y diwydiant i

undebau llafur, ac mae strwythur gweithredol Cymru Greadigol yn cynnwys adran farchnata a chyfathrebu bwrpasol a fydd yn rhoi arweiniad ar gydweithio â rhanddeiliaid ac yn cefnogi dull effeithiol a chydgysylltiedig o weithio gyda’n partneriaid.

Sefydlwyd grwpiau rhanddeiliaid ar gyfer pob un o'n his-sectorau blaenoriaeth i lywio ein hymateb i'r pandemig COVID-19, er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth yn ategu ei gilydd a bod gennym drywydd cydgysylltiedig at ymadfer. Ein bwriad yw cadw'r grwpiau hyn fel y gallwn barhau i drafod â rhanddeiliaid allweddol dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf i asesu perthnasedd ein gwaith, nodi cyfleoedd i gefnogi ymhellach, rhannu syniadau a cheisio adborth wrth i ni droi ein golygon at ymadfer. Bydd y strwythur hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd i lywio datblygiad ein cynlluniau gweithredu is-sectorol.

**Goblygiadau ariannol**: Nid oes goblygiadau ariannol.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
**Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu sy'n dwyn y teitl, Effaith Argyfwng COVID-19 ar Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau Lleol**

---

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r naw argymhelliad a geir ynddo.

**Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru annog Ofcom i sicrhau bod darlledwyr yn cynnal cywirdeb a didueddrwydd drwy adrodd ar bob un o bedair gwlad y DU yn gyfartal, fel mater o drefn, ond yn enwedig mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol adroddiadau cywir a diduedd yng Nghymru, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19 pan fo'n hanfodol bod pobl yn gallu cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau a gyflwynwyd gan y llywodraeth er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a chyfyngu ar ledaeniad y feirws. Mae ein darlledwyr yn chwarae rôl hollbwysig yn hyn o beth, gan roi gwybodaeth i bobl ledled Cymru a darparu diweddariadau rheolaidd ar y ffordd y mae'r mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith mewn cymunedau.

Er nad oes gennym unrhyw reolaeth reoleiddiol dros yr hyn a ddarlledir gan ddarlledwyr, oherwydd natur annatganoledig darlledu gyda'r BBC yn annibynnol ar y llywodraeth, mae Gweinidogion Cymru a swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn wedi parhau drwy gydol argyfwng COVID-19.

Mae'r broses o ddarparu gwybodaeth am sefyllfa COVID-19 a'r mesurau a gyflwynwyd i gyfyngu ar ledaeniad y feirws yn un gymhleth ac, weithiau, yn ddryslyd. Nid yw'r llefarwyr ar ran Llywodraeth y DU bob amser yn nodi'n glir mai dim ond i Loegr yn unig y mae ei phenderfyniadau yn gymwys. Rydym yn gweithio'n agos gydag Ofcom yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfathrebu yng Nghymru ac wedi codi mater cywirdeb adroddiadau gyda swyddogion yn Ofcom ac aelod Cymru o fwrdd Ofcom. Mae'r mater wedi'i drafod yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom. Rydym yn parhau i atgoffa Ofcom o'i ymrwymiad i ddarparu ar gyfer gwledydd y DU.

Ers dechrau'r pandemig, mae Ofcom wedi ysgrifennu at ddarlledwyr yn eu hatgoffa o'r angen i gydymffurfio â'r Cod Darlledu. Cyfeiriodd y llythyr hwn at gyngor iechyd y cyhoedd ar y Coronafeirws a'r angen i ddarlledwyr sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu hysbysu, mewn modd priodol, o'r dulliau gweithredu gwahanol a fabwysiedir gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon mewn meysydd megis gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag Ofcom er mwyn sicrhau cywirdeb a didueddrwydd ym maes darlledu a bod gwybodaeth am y safbwynt a'r dull gweithredu a fabwysiedir gan Gymru yn cael ei hadlewyrchu'n ddigonol yn adroddiadau darlledwyr.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad i'r Pwyllgor o ansawdd dosbarthu gwybodaeth am COVID-19 yn ystod y pandemig.

**Ymateb:** Derbyn

Mae lledaenu negeseuon iechyd y cyhoedd i bobl Cymru yn glir ac amserol wedi bod yn hanfodol yn ystod pandemig y Coronafeirws ac mae'n parhau felly. O'r cychwyn cyntaf, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, y cyfryngau ac eraill er mwyn sicrhau bod y negeseuon hyn yn cael yr effaith fwyaf posibl ac yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig lle mae polisi yng Nghymru wedi bod yn wahanol i bolisi yng ngweddill y DU ac er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith er mwyn lleihau lledaeniad y feirws.

Rydym hefyd wedi defnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan ein hunain i gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl Cymru. Mae cannoedd ar filoedd o bobl wedi bod yn ymweld â gwefan LLYW.CYMRU bob dydd ac mae'n ffynhonnell glir a chynhwysfawr o wybodaeth awdurdodol. Mae Gweinidogion wedi cynnal nifer o sesiynau Facebook Live er mwyn ateb cwestiynau gan y cyhoedd, yn ogystal â chyhoeddi cynnwys digidol o ansawdd uchel i lywio ymddygiad y cyhoedd. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer dilynwyr ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:

**Dilynwyr Tudalen Facebook rhwng 1 Mawrth a 10 Hydref**
Llywodraeth Cymru: +2,415 (o gymharu â 1,383 cyn hynny)
Welsh Government: +125,985 (o gymharu â 13,680 cyn hynny)

**Dilynwyr Twitter rhwng 1 Mawrth a 10 Hydref:**
Llywodraeth Cymru: +1,547 (o gymharu â 7,725 cyn hynny)
Llywodraeth Cymru: +44,692 (o gymharu ag 89,746 cyn hynny)

Mae'r cyfryngau yng Nghymru yn chwarae rôl hollbwysig wrth ledaenu gwybodaeth iechyd y cyhoedd ac rydym wedi gweithio gyda nhw mewn ffordd agored, dryloyw a hygyrch er mwyn sicrhau bod hyn mor effeithiol â phosibl. Mae Gweinidogion, y Prif Swyddog Meddygol a Phrif Weithredwr GIG Cymru wedi cynnal ymhell dros 100 o gynadleddau byw i'r wasg er mwyn ateb cwestiynau gan newyddiadurwyr. Mae'r rhain wedi denu cynulleidfaoedd sylweddol ac maent hefyd yn cael eu ffrydio'n fyw ac yn llawn ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Gwyliwyd anerchiad y Prif Weinidog i'r genedl fis diwethaf gan fwy na 500,000 o unigolion ar BBC1 Cymru.

Drwy ein hymgyrch Diogelu Cymru, rydym wedi rhoi negeseuon syml a chryno am ymddygiadau ataliol ac wedi annog cydymffurfiaeth gydag ymdeimlad o ddiben cyffredin. Rydym hefyd wedi gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU ar atgyfnerthu negeseuon iechyd a chamau gweithredu cyffredin lle mae polisi yng Nghymru yn cyd-fynd â pholisi yn Lloegr. Mae'r ymgyrch yn cwmpasu sawl maes, gan gynnwys, er enghraifft, y boblogaeth sy'n gwarchod, negeseuon i roi tawelwch meddwl i ddisgyblion, rhieni ac athrawon a'r defnydd o orchuddion wyneb.

Rydym hefyd wedi cydgysylltu gohebiaeth ynglŷn ag iechyd y cyhoedd rhwng pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy gydol y pandemig er mwyn helpu ein partneriaid i gyfathrebu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod y negeseuon a gyflëir drwy eu sianeli yn gyson a'u bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ac yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Bydd y dull gweithredu a nodwyd uchod yn parhau nes i'r pandemig ddod i ben.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i lenwi'r bwlch o hyd at £8.5 miliwn yng nghyllid BBC Cymru.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y ffaith bod y BBC yn annibynnol ar y Llywodraeth. Caiff BBC Cymru Wales ei gyllido gan y BBC drwy ffi'r drwydded deledu. Mae'n bwysig bod BBC Cymru Wales yn parhau i gael ei gyllido gan y BBC yn ganolog o'i gyllideb gyffredinol, a hynny er mwyn diogelu'r annibyniaeth honno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'n gyson am gyllid digonol i BBC Cymru Wales gan y BBC yn ganolog ar gyfer rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn ymwybodol o'r heriau ariannol sylweddol y mae'r BBC yn eu hwynebu ac effaith hyn ar gyllid BBC Cymru Wales. Rydym yn pryderu, yn naturiol, ynghylch effaith hyn ar wasanaethau a gweithrediadau BBC Cymru Wales yng Nghymru.

Mae'n hanfodol bod BBC Cymru Wales yn cael ei gyllido'n ddigonol er mwyn iddo allu parhau i wasanaethu cynulleidfaoedd a chwarae rôl allweddol wrth gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae Siarter bresennol y BBC yn rhoi diben cyhoeddus cryfach o lawer i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol Cymru. Felly, rydym yn disgwyl gweld mwy o gynnwys a rhaglenni o ansawdd gwell a wnaed ar gyfer Cymru, am Gymru – ac yng Nghymru – ym mhob un o wasanaethau'r BBC. Er mwyn gwneud hyn, mae angen cyllid priodol. Rydym wedi pwysleisio'n gyson bod yn rhaid i unrhyw arian newydd sy'n cael ei addo i Gymru fod yn arian gwirioneddol ychwanegol.

Byddwn yn parhau i bwyso am gyllid digonol i BBC Cymru Wales gan y BBC yn ganolog, yn unol â'i annibyniaeth ar y llywodraeth, a ariennir drwy ffi'r drwydded Deledu.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i barhau â'r Cynllun Cadw Swyddi y tu hwnt i fis Hydref 2020 ar sail sectorau, i gydnabod y ffaith na all y mwyafrif o'r busnesau newyddiaduraeth newyddion ddychwelyd i'r lefelau gweithgarwch economaidd cyn y pandemig am gryn amser.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Cynllun Cadw Swyddi ers iddo gael ei lansio. Mae'r Cynllun wedi chwarae rôl allweddol wrth helpu i ddiogelu swyddi yn ystod yr argyfwng. Gwnaethom ddatgan yn glir ar ddechrau'r pandemig fod angen y math hwn o ymyriad sylweddol gan Lywodraeth y DU am mai dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r adnoddau cyllidol i ddiogelu swyddi ar y raddfa hon. Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a swyddogion wedi pwyso'n rheolaidd ar Drysorlys EM a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi i gynnwys y sectorau hynny y mae angen cymorth arnynt o hyd. Mae ein dull Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru yn ein galluogi i glywed pryderon busnesau ac undebau ac mae'r naill a'r llall wedi galw'n gyson am ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi, yn enwedig ar gyfer y sectorau hynny y mae'r pandemig yn effeithio arnynt fwyaf.

Bydd y penderfyniad i ehangu'r Cynllun Cefnogi Swyddi, a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys ar 9 Hydref, yn newyddion da i fusnesau a chyflogeion y mae cyfyngiadau lleol yn effeithio arnynt. Rydym wedi bod yn annog Gweinidogion Llywodraeth y DU i adolygu'r Cynllun Cefnogi Swyddi er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol a bod cynifer o weithwyr â phosibl yn cael budd ohono. Rydym yn edrych ymlaen at gyfrannu at yr adolygiad o'r cynllun ym mis Ionawr 2021.

Rydym yn parhau i dynnu sylw at yr angen am gymorth i gyflogeion mewn cyfarfodydd â Llywodraeth y DU, gan gydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau sydd eu hangen i efelychu'r math hwn o ymyriad ar y raddfa hon.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru annog busnesau i ddefnyddio Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU wrth iddynt drafod atebion tymor hwy, yn hytrach na dileu swyddi gweithwyr.

**Ymateb:** Derbyn

Mae gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hyrwyddo cyngor, gwybodaeth a chynlluniau er mwyn helpu busnesau yn ystod pandemig COVID-19 drwy wefan Busnes Cymru [https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy](https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy) a sianeli cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig, yn ogystal â thrwy Linell Gymorth Busnes Cymru a staff cynghori Busnes Cymru. Mae hyn wedi cynnwys cyfeirio at gynlluniau Llywodraeth y DU megis y Cynllun Cadw Swyddi.

Mae cyngor penodol ar gael i unigolion a busnesau, gan gynnwys cynllunio busnes, adolygiadau ac ailfodelu a help i gael cymorth ariannol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a datblygu modelau busnes newydd. At hynny, mae cyfres o weminarau byw wedi'u datblygu er mwyn ateb heriau sy'n gysylltiedig â chael cyllid, rheoli llif arian parod, gallu digidol ac arallgyfeirio, a rheoli newid i gyflogaeth.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru arwain sgyrsiau â chynrychiolwyr o'r sector i gael dealltwriaeth gliriach o'r cymorth uniongyrchol sydd ei angen a thrafod atebion heblaw am ddileu swyddi.

**Ymateb:** Derbyn

Nodwn yr heriau a wynebir gan sector y cyfryngau yng Nghymru, y mae llawer ohonynt wedi cael eu gwaethygu gan effaith pandemig COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru er mwyn ystyried opsiynau i roi rhagor o gymorth i'r sector.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati’n ddi-oed i nodi’r newidiadau sydd eu hangen er mwyn galluogi hysbysiadau statudol i gael eu cyhoeddi gan ddarparwyr hyperleol ac ar-lein.

**Ymateb:** Derbyn

Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, derbyniwyd bod angen newid prosesau ymgysylltu yn y system gynllunio yn sylweddol er mwyn adlewyrchu dyheadau cymunedau a dulliau cyfathrebu newydd.

Yn y sector cynllunio a'r sector trafnidiaeth rydym yn pryderu bod hysbysebion mewn papurau newydd yn mynd yn llai ac yn llai effeithiol wrth i nifer y darllenwyr leihau.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn datblygu rhaglen o brosiectau er mwyn edrych ar ymgysylltu yn y system gynllunio ac mae hysbysebu hysbysiadau statudol yn faes y nodwyd eisoes fod angen ymchwilio iddo. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi lleisio pryder bod y math hwn o hysbysebu yn ddrud ac nad yw'n cynnig gwerth am arian.

Er ein bod yn awyddus i wneud mwy o ddefnydd o lwyfannau digidol i gyhoeddi hysbysiadau statudol, rydym yn ymwybodol bod angen inni barhau i ymgysylltu â'r rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd. Rydym yn ystyried cynnal adolygiad ar y cyd o hysbysiadau statudol yn y sector cynllunio a'r sector trafnidiaeth er mwyn ystyried y ffordd orau o gyrraedd y cynulleidfaoedd angenrheidiol. Yn y cyfamser, byddwn yn ystyried sut y gellir cyrraedd cynulleidfa ehangach drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu. Un o'r opsiynau a ystyrir yw ystod ehangach o gyhoeddiadau y gellir eu defnyddio i hysbysebu hysbysiadau statudol, gan gynnwys darparwyr hyperleol ac ar-lein.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol y mae eu perchnogion yng Nghymru ac sy'n drwyddedig ac yn gweithredu yng Nghymru.

**Ymateb:** Derbyn

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael newyddion a gwybodaeth leol hollbwysig. Mae hyn wedi bod yn allweddol yn ystod pandemig COVID-19 pan fo'n hanfodol bod pobl yn gallu cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau lleol.

Rydym yn rhoi cymorth i orsafoedd radio cymunedol drwy amrywiaeth o ddulliau cefnogi busnesau. Mae Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru yn sicrhau y gall unigolion, Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) a mentrau cymdeithasol gael gafael ar amrywiaeth eang o gymorth, cyngor a gwybodaeth i fusnesau. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol, megis Benthyciadau Dechrau Busnes neu gyllid benthyciadau ac ecwiti gan Fanc Datblygu Cymru. Mae gan wefan Busnes Cymru Barth Cyllid Busnes sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth arbenigol er mwyn helpu pobl i gael gafael ar gyllid yn ogystal â Chanfyddwr Cyllid https://businesswales.gov.wales/businessfinance/cy

Mae gorsafoedd radio cymunedol wedi cael cymorth yn ystod y pandemig drwy Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol sydd ar gael i'r trydydd sector.

Yn ogystal â chymorth Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio gydag Ofcom yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cynifer o orsafoedd radio cymunedol cymwys â phosibl yn cael budd o'i Gronfa Radio Cymunedol a nodi unrhyw rwystrau sy'n atal gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru rhag cael y cymorth hwn a mynd i'r afael â nhw.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 9**

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau cadarnhaol i annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad a chefnogi dulliau arloesol o ddarparu newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru.

**Ymateb:** Derbyn

Bydd Cymru Greadigol yn pwyso a mesur opsiynau ar gyfer annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol fel Clwstwr, Prifysgolion, sefydliadau newyddion perthnasol a rhanddeiliaid yng Nghymru er mwyn annog arloesedd a newydd-ddyfodiaid i'r sector newyddiaduraeth, newyddion a hyperleol.

Mae arloesedd ym maes newyddion a newyddiaduraeth yn agwedd allweddol ar y prosiect Clwstwr sy'n cael ei gyflenwi yn Ninas-Ranbarth Caerdydd rhwng 2018 a 2023. Nod y prosiect, sy'n derbyn arian cyfatebol gan Cymru Greadigol, yw pennu a chefnogi datblygiadau newydd o fewn y sector, ac mae wedi cyllido nifer o brosiectau ar draws Cymru.

Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio ymyriadau o ran sgiliau i gefnogi'r gwaith yma, fel rhaglen Gyrfaoedd Creadigol Cymru a gyllidir gan Cymru Greadigol sy'n anelu at helpu i hysbysu pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid ynghylch holl ystod y swyddi sy'n bodoli o fewn y Diwydiannau Creadigol.

Mae cymorth cyffredinol hefyd ar gael ac mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gefnogi entrepreneuriaeth drwy bolisïau a rhaglenni sy'n anelu at annog creu a thyfu microfusnesau a BBaChau a'u datblygu'n gynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig cyngor a chymorth penodol i fusnesau newydd drwy Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru, yn ychwanegol at gymorth ariannol a all fod ar gael, megis Benthyciadau Dechrau Busnes.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Eitem 5.3

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 9 Hydref 2020

Pwnc | Subject: **Addysg Cerddoriaeth**

Annwyl Kirsty,

Yng nghyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 1 Hydref, trafododd yr aelodau y llythyr ynghylch addysg cerddoriaeth a anfonwyd atoch ar y cyd gan Dŷ Cerdd, Music Mark, Anthem, a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Mae'r llythyr yn nodi pryderon bod darpariaeth gwasanaeth cerddoriaeth wedi cael ei herydu dros blynyddoedd lawer, sy'n golygu bod annhegwch sylweddol o ran mynediad at addysg cerddoriaeth ledled Cymru.

Mae llofnodwyr y llythyr yn galw am gynllun cenedlaethol ar gyfer addysg cerdd a rhagor o gyllid dros dro, ac maent yn dweud bod y ddau o'r rhain wedi cael eu hargymell gan y grŵp rhanddeiliaid a sefydlwyd gennych mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar addysg cerddoriaeth – 'Taro'r Tant'. A allwch nodi pa gamau yr ydych wedi'u cymryd mewn ymateb i argymhellion y grŵp rhanddeiliaid a sefydlwyd gennych ddwy flynedd yn ôl? A allwch hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r argymhellion yn 'Taro'r Tant' a dderbyniwyd gennych? Rwyf wedi cynnwys y rhain fel Atodiad i'r llythyr hwn.

Mae awduron y llythyr yn argymell sefydlu strwythur tebyg yng Nghymru i'r hybiau cerddoriaeth yn Lloegr, sydd, yn eu barn hwy, yn cael effaith sylweddol gyda'r cyllid cymedrol hwn drwy weithio mewn partneriaeth. A allwch ddweud wrthym a ydych wedi ystyried y model hwn o ddarparu? Os felly, a allwch nodi pam y gwnaethoch benderfynu peidio â dilyn rhywbeth tebyg yng Nghymru?

Gwelais fod Llywodraeth Cymru, ar 15 Medi 2020, wedi cyhoeddi ymarfer, perfformio a chymryd rhan yn y celfyddydau perfformio: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol. Mae adran 3.22 o'r canllawiau yn darparu gwybodaeth am addysgu cerddoriaeth. Fodd bynnag, dywedir bod y canllawiau yn 'fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn hytrach na chyfres o reolau i'w dilyn'. Mae'r canllawiau dim ond yn gymwys i 'weithgareddau a ganiateir gan reoliadau'r llywodraeth' a 'gellir ailddechrau cynnal gweithgareddau dim ond o fewn cyd-destun y rheoliadau COVID-19 sy'n gymwys ar y pryd'.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Mae'r llythyr, a ysgrifennwyd yr wythnos ar ôl cyhoeddi'r canllawiau, yn nodi ei bod yn hanfodol creu canllawiau clir i egluro sut y gall addysg cerddoriaeth ailddechrau yng Nghymru yn ystod y pandemig parhaus. Mae'n ymddangos y byddai rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi mwy o fanylion am ba weithgareddau a ganiateir mewn ysgolion a chartrefi. A allwch roi gwybod i ni a ydych yn bwriadu cyhoeddi canllawiau clir a phenodol ynghylch darparu addysg cerddoriaeth mewn ysgolion a chartrefi?

Yn gywir,



**Helen Mary Jones**

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Committee
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Tachwedd 2020

Annwyl  Helen

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Hydref, sy'n tynnu sylw at nifer o bryderon ynghylch addysg cerddoriaeth, yn enwedig yng nghyd-destun llythyr diweddar ar y cyd gan Tŷ Cerdd, Music Mark, Anthem a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Cyn cychwyn, hoffwn bwysleisio fy mod yn benderfynol o gefnogi addysg cerddoriaeth a rhoi'r gallu i ysgolion barhau i gynnig y ddarpariaeth, sy'n rhan bwysig a chyfoethog o'n diwylliant a'n treftadaeth. Hefyd, rwy'n cydnabod bod lle pwysig i gerddoriaeth yn y cwricwlwm presennol a'r Cwricwlwm newydd i Gymru, sydd i'w gyflwyno o 2022. Mae'r canllawiau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn nodi pwysigrwydd cyflwyno addysg eang a chytbwys, sy'n tanlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod dysgwyr yn cael ystod eang o brofiadau yn yr ysgol, sy'n cynnwys cerddoriaeth a'r celfyddydau.

Rwy'n ymwybodol bod ystod o faterion cymhleth mewn perthynas ag addysg cerddoriaeth l a gwasanaethau cerdd. Roedd fy swyddogion eisoes wedi dechrau ar y gwaith o asesu'r meysydd hyn, yng nghyd-destun adroddiad y pwyllgor, sef 'Taro'r Tant', yr adroddiad dilynol, sef yr Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth a gomisiynwyd gennyf, a'r Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid y Gwasanaethau Cerddoriaeth a sefydlwyd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad astudiaeth hwnnw. Rwyf wedi cynnwys diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r argymhellion perthnasol yn adroddiad 'Taro'r Tant', yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol mai fy mlaenoriaeth i a'r Adran dros y misoedd diwethaf oedd llunio ymateb y byd addysg i bandemig Covid-19. Oherwydd hynny, roedd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Rhanddeiliaid wedi dod i ben am gyfnod. Er hynny, mae fy swyddogion yn gobeithio cynnal cyfarfod o'r Grŵp yn ystod y misoedd nesaf, a hynny er mwyn ailedrych ar y ffordd ymlaen yn y maes gwaith pwysig hwn.  Bydd hyn yn cynnwys ystyried y thema gref a geir yn yr astudiaeth ddichonoldeb, sef cyflwyno Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth, gyda'r nod o ddarparu fframwaith er mwyn nodi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


safonau ansawdd, llwybrau dilyniant a darpariaeth deg. Os byddai cynllun cenedlaethol o'r fath yn cael ei gyflwyno, byddai'n rhaid iddo weithio'n gyfochrog â gofynion y cwricwlwm newydd.

O ran y mater o Ganolfannau Cerdd yn Lloegr, edrychodd yr adroddiad dichonoldeb ar y maes hwn. Nodwyd bod rhai manteision i'r dull hwn o weithredu, ond hefyd tynnwyd sylw at nifer o broblemau sy'n gysylltiedig ag ef. Rhai o'r problemau hynny yw gwrthdaro buddiannau rhwng rôl barhaus yr awdurdodau lleol sy'n rhedeg ac yn gweithredu canolfannau wrth gomisiynu gwasanaethau iddyn nhw'u hunain ac i gyflenwyr amgen. Roedd problemau eraill yn cynnwys lefel yr ymgysylltiad a'r gefnogaeth ar gyfer parhad y dysgu a'r addysgu, sy'n hanfodol mewn perthynas â chreu llwybrau dilyniant teg i ddysgwyr sydd â thalent arbennig.

Mewn ymateb i'r pwynt ynghylch addysg cerddoriaeth yn ystod y sefyllfa barhaus o COVID-19, rydym wedi diweddaru ein canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion. Mae'r canllawiau dysgu yn dweud yn glir pa mor bwysig yw cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys gydol y cyfnod hwn. Er hynny, rwy'n gwerthfawrogi'r pwynt sydd gennych o ran bod yn eglur ynghylch gweithgareddau cerddoriaeth yng nghyd-destun y pandemig, ac mae fy swyddogion yn datblygu canllawiau pellach, megis dogfen Cwestiynau Cyffredin a fydd yn cynnwys cyfeiriad penodol at addysgu cerddoriaeth, ymhlith amryw o bynciau eraill. Dylwn hefyd nodi bod gwasanaethau gerdd mewn ysgolion wedi ailgychwyn mewn rhai ardaloedd, ar ôl cyfnod o saib oherwydd Covid-19. Mae Cyngor Caerdydd, er enghraifft, wedi bod yn cydweithio'n agos a Gwasanaeth Cerdd Bro Morgannwg i baratoi ar gyfer dychwelyd i roi hyfforddiant cerddoriaeth yn ddiogel mewn ysgolion. Mae nifer o fesurau iechyd a diogelwch yn eu lle, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i gadw plant, tiwtoriaid ac ysgolion yn ddiogel, wrth leihau'r risg o ledaenu Covid-19. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys addasu'r ffordd y mae gwersi'n cael eu cyflwyno, rhoi canllawiau newydd i diwtoriaid a gweithredu prosesau glanweithdra a mesurau pellter cymdeithasol.

Wrth gwrs, rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid strategol er mwyn sicrhau y gall ysgolion barhau i ddarparu gweithgareddau cerddorol mewn ffordd ddiogel, a bod cymorth a chanllawiau priodol yn cael eu darparu.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

## ADRODDIAD ‘TARO’R TANT’ – DIWEDDARIAD AR YR ARGYMHELLION

**Argymhelliad 1**
*Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo’r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth i gorff cenedlaethol hyd braich sydd â model a phatrwm penodol ar gyfer darpariaeth pob rhanbarth. Dylai’r corff cenedlaethol gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru a dylid ei wneud yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion a staff sy’n gweithio yn y sector addysg cerddoriaeth, ni waeth lle y maent na beth yw eu cefndir cymdeithasol, yn elwa ar gyfleoedd cyfartal. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan y corff cyfrifol unrhyw arian ychwanegol sydd ei angen er mwyn cynnal cydraddoldeb mynediad ar lefel Cymru gyfan.*

Mae’r argymhelliad yn cael ei ystyried fel rhan o flaenrhaglen Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid y Gwasanaethau Cerddoriaeth. Yn fy nghyfarfod â’r Pwyllgor fis Ionawr diwethaf, roedd gennyf bryderon ynghylch yr anfanteision a fyddai’n dod wrth gyflwyno corff ychwanegol i’r system. Fy mlaenoriaeth i yw sicrhau bod yr adnodd yn mynd yn uniongyrchol i wasanaethau mewn ysgolion. Roedd y Grŵp yn cytuno’n gryf â’m safbwynt yn ei gyfarfod, ac yn awyddus i weld y cyllid yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau rheng flaen.

**Argymhelliad 3**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i adolygu telerau ac amodau staff y gwasanaeth cerddoriaeth i sicrhau eu bod mor gyson â phosibl fel mater o frys.*

Mae’r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu, ac mae llythyr wedi cael ei anfon at awdurdodau lleol ar y mater hwn.

**Argymhelliad 4**
*Mae’r Pwyllgor yn argymell, yn amodol ar y pwyntiau uchod ynghylch datblygiad ar byramid addysg cerddoriaeth Llywodraeth Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arian, cefnogaeth a chyngor digonol ar gyfer y rheini sydd am sefydlu modelau amgen, dichonadwy o ddarpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth, ar yr amod bod unrhyw fodel cefnogaeth yn cydymffurfio â safbwynt moesegol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thelerau ac amodau staff.*

Cafodd yr astudiaeth ddichonoldeb gwasanaethau cerdd y dasg o ystyried modelau amgen o wasanaethau cerdd a nodi anghenion a galwadau am wasanaethau o'r fath. Ystyriodd yr adroddiad nifer o fodelau, gan gynnwys y model cydweithredol, preifat a busnes elusennol. Rhaid nodi’r lefel uchel o foddhad swydd a chadw staff cerddoriaeth yn y model cydweithredol. Mae cyngor a chymorth rhad ac am ddim ar gael gan Busnes Cymdeithasol Cymru, sy'n rhan o rwydwaith cymorth busnes Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o flaenraglen Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid y Gwasanaethau Cerddoriaeth.

**Argymhelliad 7**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried ar y cyd fel mater o frys sut y gall gwaith awdurdodau lleol yng Nghymru o weithredu argymhellion adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen gael ei gyflymu, gyda’r bwriad o adrodd i’r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o fewn chwe mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn.*

Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu. Cyhoeddwyd [adroddiad cynnydd terfynol] ar yr argymhellion ym mis Ebrill 2019.

**Argymhelliad 9**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer prynu offerynnau cerdd ac yn eu dosbarthu ar sail angen. Dylid gwneud hyn fel mater o frys a dylid ei anelu at wella'r sefyllfa yn y byrdymor, i gwmpasu'r cyfnod cyn bod corff cenedlaethol yn gallu cymryd cyfrifoldeb llawn dros wasanaethau cerddoriaeth.*

Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei weithredu. Darparwyd cyllid o £1.5m i awdurdodau lleol yn 2018-19 a 2019-20, ac roedd elfen ohono ar gael i brynu offerynnau. Mae'r sefyllfa o ran ariannu yn y dyfodol yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, gan bod rhaid ystyried symud cymorth cyllid addysg yng nghyd-destun pandemig COVID-19.

**Argymhelliad 10**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol gan ganolbwyntio ar gamau ymarferol i sicrhau cysondeb o ran cyfle ledled Cymru.*

Mae'r argymhelliad yn cael ei ystyried fel rhan o flaenrhaglen Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid y Gwasanaethau Cerddoriaeth (ni fu'n bosibl cynnwys y maes hwn yng nghylch gwaith Estyn, hyd yma, oherwydd yr ystod eang o feysydd eraill sydd eisoes wedi'u hymgorffori).

**Argymhelliad 11**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o gyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer addysg cerddoriaeth.*

Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu – Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei hyrwyddo, yn y cyd-destun hwn.

**Argymhelliad 13**
*Rydym yn argymell bod Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn rhoi mecanweithiau a chyllid digonol ar waith er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl, sy'n dymuno symud ymlaen at ragoriaeth, yr adnoddau i wneud hynny.*

Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu – Mae CCIC wedi rhoi mecanweithiau priodol ar waith ac wedi derbyn cyllid o £190,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2019-20 am gymorth i ensembles cerdd . Roedd yr egwyddor gyffredinol o gyfle cyfartal i bob plentyn hefyd yn thema allweddol yn adroddiad Astudiaeth Ddichonoldeb Gwasanaethau Cerddoriaeth.

**Argymhelliad 14**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ffyrdd o fonitro cyfansoddiad yr ensembles cenedlaethol i sicrhau eu bod mor gynhwysol o'r holl grwpiau cymdeithasol â phosibl. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw anghydbwysedd yn eu cyfansoddiad fel mater o frys. Dylid adolygu'r data yn rheolaidd a chymryd y camau priodol.*

Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu – Mae CCIC yn monitro cyfansoddiad ensembles.

**Argymhelliad 15**
*Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cymryd camau i sicrhau bod mwy o eglurder o ddiben rhwng y Gronfa Waddol a Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn*

*y cyllid elusennol y maent yn ei geisio er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ac i annog cydweithio rhyngddynt.*

Mae’r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu. Mae Anthem (y Gronfa Waddol) a CCIC yn cyd-fynd a’i gilydd ac nid ydynt yn enghraifft o ddyblygu.

**Argymhelliad 16**
*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro’r cyllid sydd ar gael i’r Gwaddol Cenedlaethol ac yn ystyried cyfraniadau cyfalaf ychwanegol os bydd angen.*

Mae’r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro’r cyllid sydd ar gael i’r Gronfa Waddol.

Eitem 5.4

**Drwy E-bost** 6 Tachwedd 2020

Annwyl Helen Mary Jones

**Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Fi yw Swyddog Cenedlaethol yr undeb sy'n cynrychioli uwch reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn Amgueddfa Cymru (AC) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC) ac rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd.

Cyflwynodd FDA Cymru dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor i effaith yr achosion o COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru. Roedd ein tystiolaeth yn dangos sut mae'r gostyngiad sylweddol mewn refeniw ymwelwyr – yr amcangyfrif ar hyn o bryd yw £1.8 miliwn ar gyfer AC, a £600,000 ar gyfer LlGC – wedi dwysáu sefyllfa ariannol enbydus y ddau sefydliad.

Mae dau ffactor arall sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cynyddu'r pwysau ariannol:

1. Mae cymorth grant 2020 wedi cael ei dynnu'n ôl yn ystod y flwyddyn: **£440,000** ar gyfer AC, a **£200,000** ar gyfer LlGC.
2. Mae'r ddau sefydliad wedi wynebu costau annisgwyl ychwanegol er mwyn darparu offer i staff weithio gartref, a pharatoi safleoedd i ailagor: **£75,000** ar gyfer LlGC, a chyfanswm cyfunol o **£250,000** ar gyfer saith safle AC.

Erbyn hyn, mae FDA Cymru hefyd yn deall na fydd y naill sefydliad na'r llall yn elwa ar unrhyw ran o'r pecyn adfer diwylliannol sy'n werth £59 miliwn. Mae hynny'n hynod siomedig ac yn ergyd bellach i'r sefydliadau.

Heb gyllid ychwanegol ar ffurf cymorth grant, mae'n anodd gweld sut gall AC a'r LlGC fwrw ymlaen â'r gwaith ar brosiectau cynnal a chadw cyfalaf hanfodol. Mae cyfanswm cyfunol y gwaith cynnal a chadw cyfalaf ar gyfer Amgueddfa Cymru yn unig dros **£80 miliwn** erbyn hyn, ac mae tua un rhan o bump yn waith hanfodol a brys.

Mae'r pwysau ariannol hefyd yn peryglu gallu AC a'r LlGC i ddigidoleiddio cynnwys, a drwy hynny i wneud casgliadau cenedlaethol yn fwy hygyrch i ddinasyddion ledled Cymru.

Mae'r Adolygiad Pwrpasol o'r Llyfrgell Genedlaethol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cydnabod nad yw'r model cyllido presennol yn gynaliadwy. Yn wir, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae graddfa diffyg ariannol y Llyfrgell Genedlaethol yn peryglu hyd at **30 o swyddi, neu 13% o'r gweithlu**.

Mae'n anodd asesu gwerth AC a'r LlGC mewn termau economaidd, ond roedd Cynllun Gweithredol 2018/19 Amgueddfa Cymru yn cyfrifo bod pob £1 y mae Llywodraeth Cymru yn ei buddsoddi yn AC yn cynhyrchu £4 o wariant ychwanegol yng Nghymru. **Mae hynny'n cyfrannu £83 miliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA) at economi Cymru** – dyna yw'r GVA uchaf ar gyfer unrhyw sefydliad diwylliannol sy'n derbyn arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddau sefydliad yn rhan o wead hanes diwylliannol Cymru a rhaid eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er y byddai un chwistrelliad ariannol i'w groesawu, ni fydd hynny'n datrys y problemau hirdymor a achoswyd gan ddiffygion strwythurol.

Roedd adroddiad eich Pwyllgor ar effaith COVID-19 ar dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru, yn cydnabod bod sefyllfa ariannol enbydus y ddau sefydliad wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. **Mae FDA Cymru eisoes wedi galw ar Weinidogion i weithredu argymhellion yr adroddiad.**

**Mae FDA Cymru hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i unioni dros ddegawd o doriadau i gymorth grant, drwy gyflwyno model cyllido newydd a chynaliadwy. Model cyllido sy'n seiliedig ar gynnydd sylweddol mewn cymorth grant. Model cyllido i gefnogi diwylliant Cymru ac i ddiogelu swyddi yng Nghymru.**

Hoffwn drafod y mater hwn gyda'ch pwyllgor, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai rhywun o'ch swyddfa gysylltu â mi i drefnu cyfarfod.

Yn gywir

**Gareth Hills**
**Swyddog Cenedlaethol FDA Cymru**

CEFNOGI AMGUEDDFEYDD A LLYFRGELLOEDD CYMRU

fda CYMRU | WALES